PWYLLGOR CRAFFU ADOLYGU POLISI A CHRAFFU PERFFORMIAD

DYDD MERCHER, 15 CHWEFROR 2017

| | |
|---|---|
| Yn bressenol: | Cynghorydd Howells(Cadeirydd) |
| | Cynghorwyr Goddard, Hunt, Murphy, Sanders, Huw Thomas a/ac Walker |

56 : YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Roedd y Cynghorydd Howells wedi dweud o’r blaen y byddai’n hwyr yn dod i’r cyfarfod.

57 : DATGAN BUDDIANNAU

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiannau.

58 : CYNLLUN CORFFORAETHOL 2017-19

Croesawodd y Cadeirydd y Cynghorydd Phil Bale, Arweinydd Cyngor Dinas Caerdydd, Paul Orders, y Prif Weithredwr; Joseph Reay, Pennaeth Perfformiad a Phartneriaethau a Dylan Owen, Pennaeth Swyddfa’r Cabinet i’r cyfarfod.

Dywedodd y Cadeirydd fod y gohebiaeth yn dilyn y pedwar pwyllgor craffu arall wedi’i darparu i Aelodau ar ffurf copi caled yn y cyfarfod.

Gwahoddodd y Cadeirydd yr Arweinydd i wneud datganiad lle y dywedodd y byddai’r Aelodau’n ymwybodol o rôl y Cynllun Corfforaethol; roedd Swyddfa Archwilio Cymru wedi ei weld yn esblygu a gwnaed llawer o waith er mwyn sicrhau bod y cynnwys yn gadarn. Dywedodd yr Arweinydd mai Caerdydd yw’r trydydd awdurdod gorau o ran gwella yng Nghymru, ac mae ystod o fentrau yn cael eu gweithredu megis y Dinas y Cyflog Byw, a mentrau eraill sy'n dangos y rhaglen newid ac yn adlewyrchu natur cyfnewidiol ystâd Caerdydd.

Cafodd yr Aelodau gyflwyniad ar y Cynllun Corfforaethol a gwahoddodd y Cadeirydd gwestiynau a sylwadau gan yr Aelodau;

- Ceisiodd yr Aelodau eglurhad ar gyfeiriad y Cynllun Corfforaethol at NEETs oherwydd ei fod yn argymhelliad gan y Pwyllgor Craffu Plant a Phobl Ifanc.

- Dywedodd y Swyddogion, ar dudalen 38 y Cynllun Corfforaethol roedd adran benodol ar hyn oherwydd ei fod yn amcan newydd i gydnabod pwysigrwydd NEETs; cafodd yr amcan hwn ei gynnwys yn adran Economaidd y Cynllun er mwyn cysylltu â gwaith ar gyfer deilliannau hirdymor cynaliadwy. Roedd pwyslais newydd ar y cysylltiad hwn i mewn i’r gwaith yn hytrach na defnyddio'r term NEET oherwydd gwelwyd hyn fel term negyddol. Ychwanegodd y Prif Weithredwr fod ymrwymiad cadarnhaol gan y Cyngor i gynyddu nifer y prentisiaethau a’r hyfforddeiaethau . Dywedodd yr Arweinydd y bu gostyngiad yn y ffigwr hwn yn ystod y weinyddiaeth bresennol ac roedd trywydd am i lawr; dywedodd ei fod yn bwysig cysylltu addysg a gwaith â'r

strategaeth economaidd a rhoi cyfle i bobl fynd ar gyrsiau pan fyddant yn gadael yr ysgol.

- Croesawodd yr Aelodau'r ymagwedd newydd a gymerir parthed y Cynllun Corfforaethol gan ofyn pa feysydd a gafodd eu cryfhau er mwyn bodloni gofynion y Ddeddf Llesiant a Chenedlaethau'r Dyfodol. Dywedodd y Swyddogion bod y Ddeddf wedi'i hadlewyrchu yn y cynllun cyfan, yn enwedig o ran twf fel y gall pawb elwa. Ychwanegwyd bod adroddiad Dinas Fyw, Dinas Byw a'r Asesiad Llesiant wedi gyrru'r fath newidiadau. Dywedwyd wrth yr Aelodau fod adroddiad Dinas Fyw, Dinas Byw wedi gwneud rhai heriau ar gyfer y Ddinas yn eglur, a chafodd y rhain eu cipio, eu dogfennu ac ymatebwyd iddynt drwy gydol y Cynllun Corfforaethol. Ychwanegodd yr Arweinydd fod tudalen 36 y Cynllun Corfforaethol yn darlunio ymrwymiad y Cyngor i Genedlaethau'r Dyfodol, er enghraifft y strategaeth gwydnwch, risg llifogydd, diogelwch a'r Fflyd Trafnidiaeth gyda thechnoleg dim allyriadau.

- Cyfeiriodd yr Aelodau at amcan Llesiant 3.1 a'r targed o 500 o swyddi newydd a restrir ar dudalen 35 y Cynllun Corfforaethol; a gofynnwyd lle roedd y cyd-destun sy'n dangos pam y nodwyd y targed fel 500, yn enwedig gan fod targed y flwyddyn flaenorol yn uwch.
- Esboniodd y swyddogion fod y cyd-destun yng Nghynllun Cyflawni'r Gyfarwyddiaeth lle roedd manylion ar sut y daethant i'r ffigwr hwnnw. Fodd bynnag, nododd y Swyddogion fod hwn yn fwlch gan na fyddai'r cyhoedd yn gweld y cyd-destun hwn. Ychwanegodd y Prif Weithredwr fod hyn yn faes arbennig o anodd ei dargedu gan ei fod yn cynnwys projectau a chyfyngir ar lawer ohonynt gan yr amserlen.
- Gofynnodd yr Aelodau, yn nhermau gosod targedau, a oedd ymagwedd unffurf; dywedodd y swyddogion ei fod wedi mynd yn fwy unffurf ond bod gwaith i'w wneud ar hwn o hyd.

- Cyfeiriodd yr Aelodau at y cynnydd a ragamcenir yn y boblogaeth yn y Ddinas sef 26% erbyn 2020, ac y byddai cynllun busnes ar gyfer unrhyw fusnes arall yn canolbwyntio ar sut i adeiladu galluedd i gyrraedd y cynnydd, ond ni fyddai'r Cynllun Corfforaethol.
- Gofynnodd yr Aelodau a fyddai setliadau Llywodraeth Cymru yn adlewyrchu'r cynnydd o 26% yn y blynyddoedd i ddod, gan nodi y collid £8 miliwn yn y tair blynedd nesaf. Gofynnodd yr aelodau pa gynllunio oedd ar y gweill er mwyn mynd i'r afael â'r cynnydd yn y boblogaeth. Dywedodd y Prif Weithredwr fod y ffigyrau twf poblogaeth yn ffigyrau swyddogol; mae setliadau cyllidebol y Cynllun Ariannol Tymor Canolig wedi dangos cynnydd yn y boblogaeth o flwyddyn i flwyddyn. Ychwanegodd ei bod yn berthynas rhwng cyllid a ffigyrau poblogaeth ac nid yw'n berffaith; roedd ynglŷn ag edrych ar lefelau'r arbedion y bu'n rhaid eu gwneud ac mae anghysondeb rhwng y galw a'r setliadau ariannol a dderbyniwyd. Ychwanegodd fod y Cynllun Corfforaethol wedi'i gyfyngu gan amserlenni; roedd gan y cynllun llesiant olwg tymor hwy o wasanaethau cyhoeddus yn y Ddinas a sut mae'n ymdopi â'r cynnydd yn y boblogaeth.

  Ychwanegodd yr Arweinydd fod y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus hefyd yn edrych ar y mater hwn; byddai'r Bargen Ddinesig yn dod â fframwaith newydd ar gyfer contractau, gweithio ar Strategaeth Economaidd ar gyfer adfywio a chydweithio ar draws y rhanbarth; roedd gwaith yn mynd rhagddo gyda'r CLILC, gan edrych ar fodelau cyllido newydd posibl ar gyfer Awdurdodau Lleol, ac yn edrych hefyd ar ardollau seilwaith. Ystyriodd yr aelodau, os bydd

cynnydd yn y boblogaeth, byddai angen am nifer sylweddol fwy o ysgolion, tai ayyb., felly roedd angen gwaith cadarn er mwyn gweld a oedd y rhagamcaniad yn ddilys, ac os felly sut bydd y Cyngor yn ymdopi gyda'r cynnydd o ran galw.

- Roedd yr aelodau'n falch o weld dadansoddiad o ddangosyddion. ac roeddent yn falch o'r ymateb i'r sylwebaeth gan y Pwyllgor Adolygu Polisi a Pherfformiad ar 'sut gwnaethon ni' ym mis Ionawr.
- Fodd bynnag cafodd yr Aelodau eu synnu o ran faint o ddangosyddion oedd wedi newid. O ran yr edau euraid trwy'r cynlluniau, ystyriodd Aelodau fod dau o'r prif faterion oedd Tai a Chasglu Gwastraff ac nid allent weld sut oedd y Cyngor yn mynd i fynd i'r afael â'r materion hyn, oherwydd na allent weld yr ymrwymiad yn y Cynllun Corfforaethol a aeth i'r afael yn uniongyrchol â'r materion penodol hyn. Dywedodd y Swyddogion, o ran yr edau euraid, mae'r Cynllun Corfforaethol yn canolbwyntio ar y faterion lefel uchel/strategol sy'n gyfyngedig. Ymdrinnir â materion gweithredol yn y Cynlluniau Cyflawni Cyfarwyddiaeth ac nid yw'r rhain yn ddogfennau cyhoeddus, ond gellid sicrhau eu bod ar gael yn fwy eang i deulu'r Cyngor megis Staff ac Aelodau. Cytunodd y swyddogion bod gwaith i'w wneud o ran sicrhau bod yr edau euraid rhwng y cynlluniau yn fwy gweladwy i'r cyhoedd.
  Ystyriodd yr Aelodau a oedd lle i gynyddu craffu'r cynlluniau Cyflawni Cyfarwyddiaeth yn enwedig os na chaiff blaenoriaethau eu ffocysu lle y mae'r cyhoedd yn dweud bod pryderon ganddynt. Dywedodd y Prif Weithredwr eu bod wedi ceisio symud i ffwrdd o Gynlluniau Corfforaethol sy'n cynnwys holl weithgarwch y Cyngor, gan flaenoriaethu materion strategol lefel uchel a busnes fel arfer yn y Cynlluniau Cyflawni Cyfarwyddiaeth.

- Ystyriodd yr Aelodau fod y Cyngor yn y sefyllfa orau i benderfynu ar beth dylid adrodd gan obeithio bod lle i drafod gydag adrannau Llywodraeth Cymru ar hyn.
- Dywedodd yr Arweinydd, pe bai gan yr Aelodau awgrymiadau am ddangosyddion, roedd amser i gynnwys y rhain yn yr atodiadau; mae'r adroddiad Dinas Fyw, Dinas Byw yn rhoi cipolwg o faterion sydd o bwys i'r cyhoedd ac mae'r adroddiad yn fformat mwy hygyrch i'r cyhoedd.

Nododd yr Aelodau fod angen £81 miliwn o arbedion yn y tair blynedd nesaf, gan ofyn pa gynlluniau oedd i weddnewid gwasanaethau. Dywedodd y Prif Weithredwr y buont yn gweithio ar y Rhaglen Datblygu Sefydliadol ers tair blynedd; byddai adolygiad o'r hyn a gyflawnwyd er mwyn darparu platfform i edrych ar y tair blynedd nesaf. Mae Datblygu Sefydliadol ynglŷn ag ystod o fentrau newid gan gynnwys cynyddu incwm masnachol, a symudwyd ymlaen yn rhannol fel busnes fel arfer; bu meysydd yng Ngwasanaethau Cymdeithasol, Tai, Datblygu Hybiau ynglŷn â newid gwasanaethau a chynyddu arbedion.

59 : CYNIGION DRAFFT AR GYFER Y GYLLIDEB 2017/18

Atgoffodd y Cadeirydd yr Aelodau fod y Pwyllgor yn unigryw o ran ei rôl ddeublyg wrth graffu ar y cynigion ar gyfer y gyllideb.

- Yn gyntaf, gall ystyried y cynigion o safbwynt corfforaethol yn nhermau sut maent yn alinio â blaenoriaethau'r Cyngor.
- Dylai'r Pwyllgor hefyd brodi'r prosesau, ymgynghoriadau a'r asesiadau y bu'r cynigion yn destun ohonynt. Yn ail, gall y Pwyllgor ystyried cynigion cyllidebol

gwasanaethau penodol o fewn ei gylch gorchwyl, sut maent yn alinio â'r Cynllun Corfforaethol a'u heffaith ar ddarparu gwasanaethau.

Byddai'r eitem hon felly yn cael ei rhannu'n ddwy ran:

- Trosolwg o gynigion cyllidebol 2017/18 gan y Cynghorydd Hinchey a Christine Salter; wedi'i ddilyn gan
- Craffu'r Cyfarwyddiaethau sy'n dod o dan gylch gorchwyl Adolygu Polisi a Pherfformiad, gyda'r Aelodau Cabinet a'r Cyfarwyddwyr priodol yn bresennol.

**Cynigion Drafft y Gyllideb 2017-18 – Trosolwg**

Croesawodd y Cadeirydd y Cynghorydd Phil Bale, Arweinydd Cyngor Dinas Caerdydd, y Cynghorydd Graham HInchey, Aelod Cabinet dros Wasanaethau Corfforaethol a Pherfformiad, Christine Salter, Cyfarwyddwr Corfforaethol Adnoddau, Ian Allwood, Pennaeth Cyllid a Phartneriaeth Gareth Newell a'r Rheolwr Ymgysylltu â'r Gymuned i'r cyfarfod.

Gwahoddodd y Cadeirydd yr Aelod Cabinet i wneud datganiad lle y dywedodd y cymerwyd ymagwedd wahanol i reoli'r gyllideb eleni; roedd ymagwedd blwyddyn gyfan i weithio ar y gyllideb wedi gwneud gwahaniaeth sylfaenol, gan ddefnyddio misoedd yr haf i herio Cyfarwyddwyr ar y cynigion roeddent wedi'u rhoi gerbron. Ni fu unrhyw brotestiadau ac roedd y graddau risg mewn sefyllfa lawer gwell; roedd gan 93% o'r cynigion gynlluniau manwl y tu ôl iddynt.
Hefyd, cafodd misoedd yr haf eu defnyddio i gynnal yr arolwg Holi Caerdydd; roedd 4,000 o ymatebion, hefyd roedd yr ymgynghoriad pum wythnos ar y gyllideb wedi derbyn 2,500 o ymatebion

Ychwanegodd nad oedd arbedion o £25 miliwn yn hawdd ddod o hyd iddynt a diolchodd i'r Cynghorwyr ariannol am y gwaith roeddent wedi'i wneud ar y cynigion.

Dywedodd y Cadeirydd wrth yr Aelodau fod yr Undebau Llafur wedi cael gwahoddiad i fod yn bresennol yng nghyfarfod heddiw ond nid oeddent yn  bresennol ac nid oeddent wedi cyflwyno unrhyw ddatganiadau i'w hystyried.

Cafodd yr Aelodau gyflwyniad ar y Cynllun Corfforaethol a gwahoddodd y Cadeirydd gwestiynau a sylwadau;

- Gofynnodd yr aelodau a oedd y ffigwr wrth gefn yn ddigyfnewid.
- Dywedodd y Swyddogion bod yr arian wrth gefn yn isel o'i gymharu ag ar draws Cymru, ond rodd angen rhywfaint er mwyn gwydnwch ariannol a risg. Dywedwyd wrth yr aelodau y cafodd £2 miliwn ei ddefnyddio y llynedd er mwyn cynnal y gyllideb.  Mae'r Swyddogion yn ymgymryd â dadansoddiad o arian wrth gefn er mwyn gweld yr hyn nad oes ei angen bellach, nad yw'n addas at y diben, o'r ymarfer hwn y cafwyd y £1.5 miliwn o arian wrth gefn.  Y gydran fwyaf oedd yr yswiriant wrth gefn o ganlyniad i adolygiad yn ôl ystadegyn yswiriant o ddarpariaeth yswiriant, a'r rhai eraill oedd darnau mân a gymerwyd er mwyn mantoli'r gyllideb.
- Nododd yr Aelodau fod y cynnydd o ran y Dreth Gyngor o 3.7% wedi darparu mwy na'r £4.5 miliwn a oedd ei angen a gofynasant am eglurhad o hyn. Esboniodd y swyddogion ei fod yn perthyn i'r Cynllun Gostyngiad Y Dreth Gyngor lle bod rhaid i unrhyw godiad gynnwys canran i wneud yn iawn am yr

elfennau Gostyngiad Y Dreth Gyngor. Y cyfanswm net yr oedd ei angen i fantoli'r gyllideb oedd £4.5 miliwn.

- Cyfeiriodd yr Aelodau at yr arbedion sydd eu hangen dros y ddwy neu dair blynedd nesaf a gofynnodd a oeddent yn ymdopi ag Arbedion y Gyfarwyddiaeth.
- Dywedodd y Swyddogion fod yr arbedion y cyfeiriwyd atynt oedd arbedion y blynyddoedd blaenorol, maent yn rhan o Arbedion y Gyfarwyddiaeth, nid yn ogystal â nhw. Nododd y Swyddogion, mewn perthynas â dileadau, roeddent wedi asesu'r sefyllfaoedd ar gyflawniadau arbedion yn y flwyddyn gyfredol, wedi edrych ar arbedion na ellir eu cyflawni, ac mae'r gyllideb yn cynnwys £1 miliwn o ddileadau o ran arbedion.
- Gofynnodd yr aelodau am eglurhad ar yr Asesiad Risg ar Arbedion y Gyfarwyddiaeth. Dywedodd yr Swyddogion fod hyn wedi'i drafod am yn hir gyda'r Cyfarwyddiaethau; bellach mae gan Wasanaethau Cymdeithasol gynlluniau i gyflawni arbedion a cherrig milltir; roedd risg o hyd ynghylch rhai arbedion oedd yn anodd eu cyflawni, megis lleoliadau y tu allan i'r Sir lle y gall costau gynyddu'n rhwydd, neu cafodd amserlennu eu hymestyn. Roedd cronfa wrth gefn ar gyfer methu cyflawni arbedion a osodwyd ar £3 miliwn.

- Cyfeiriodd aelodau at y gorwariant hanesyddol o ran gwasanaethau cymdeithasol a gofynnwyd pa mor gyflawnadwy oedd yr arbedion; dywedodd yr Aelod Cabinet fod y pwysau yng ngwasanaethau cymdeithasol yn hysbys, roedd poblogaeth sy'n heneiddio; cafodd 68 o swyddi newydd eu creu i gefnogi hyn.
- Ychwanegodd y swyddogion fod y 9.2 miliwn yn dwf ar ôl arbedion o 5 miliwn; cafodd y gyllideb ei ailosod ar waelodlin go iawn ar ôl cael ei hail-alinio gan 5 miliwn.
- Ynglŷn ag ysgolion, dywedwyd wrth yr Aelodau bod cynlluniau ar waith ar gyfer ysgolion mewn trafferthion drwy Her Cymru, lle mai dyraniad o £2 miliwn oedd barn y Cyfarwyddwr ar gyfer 6 ysgol mewn mesurau arbennig, y maent i gyd wedi gwella; mae gan 3 o'r ysgolion ddiffygion sylweddol ac mae ganddynt gynlluniau adfer ar waith.

- Nododd yr aelodau y materion o ran cynnal a chadw mewn ysgolion a gofynnwyd a gafodd arian ychwanegol ei ddyrannu ar gyfer y rhain.
- Dywedodd yr Swyddogion y cafodd ei ystyried, roedd y Cabinet wedi cymryd i ystyriaeth y patrwm gwariant yn ysgolion yn y rhaglen Gwariant Cyfalaf; daethpwyd â rhywfaint ohono ymlaen er mwyn galluogi i waith gael ei wneud. Roedd ôl-groniad sylweddol o hyd na fyddai'r gyllideb yn mynd i'r afael ag ef, Roedd yn waith hirdymor ac y gobaith oedd y câi ei gynorthwyo gan ariannu Llywodraeth Cymru.
- Gofynnodd yr aelodau am ddiweddariad ar Cymunedau Yn Gyntaf a dywedwyd wrthynt fod rhywfaint o resymau wedi'u dangos er mwyn ariannu'r cynllun wrth fynd ymlaen, yn y Model Gwydnwch Ariannol roedd swm dros dro o £300 mil a oedd yn cynnwys rhai ar gyfer Cymunedau yn Gyntaf.

- Cyfeiriodd yr Aelodau at yr Ymgynghoriad a nododd fod y gyfradd ymateb yn llai nag 1% o'r boblogaeth, roedd yn ffafrio Gorllewin a Gogledd y Ddinas a bod pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig yn cael eu tangynrychioli yn yr atebion.
- Dywedodd yr Swyddogion fod agwedd dau gam i'r ymgynghoriad, defnyddiwyd yr haf i ymgynghori'n benodol â phobl dduon a lleiafrifoedd ethnig

ac ardaloedd Canol y Ddinas a De Caerdydd, roedd y niferoedd yn dda o'u cymharu â dinasoedd craidd eraill ac atodwyd y gwaith hwn gan gwaith arolwg gyda grwpiau ffocws.

- Cyfeiriodd aelodau at y cwestiynau yn yr arolwg a gofynnwyd a oedd y fformat yn briodol o ran y gallai rhai o'r cwestiynau ymddangos yn rhai arweiniol. Dywedodd y swyddogion fod yr arolwg yn un elfen; ni ellir gorfodi pobl i lenwi'r arolwg, ond bu presenoldeb yn nigwyddiadau pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig cymunedol, yn archfarchnadoedd ayyb. ac mae'r canlyniadau'n cymharu'n dda ag Awdurdodau Lleol a Dinasoedd Craidd eraill ac roeddent yn welliant ar gyfraddau ymateb y flwyddyn flaenorol.

**Cynigion cyllidebol y Gyfarwyddiaeth Adnoddau**

Croesawodd y Cadeirydd Christine Salter, Cyfarwyddwr Corfforaethol Adnoddau, Philip Lenz, Prif Swyddog Adnoddau Dynol, ac Ian Allwood, Pennaeth Cyllid ar gyfer yr eitem hon;

Gwahoddodd y Cadeirydd yr Aelod Cabinet dros Wasanaethau Corfforaethol a Pherfformiad i wneud datganiad am y gyllideb hon, lle y dywedodd y bu newid o ran polisi i gefnogi'r staff, gan gynnwys diswyddo gwirfoddol, cwnsela cyflogeion, Amser i Newid ayyb. Roedd £1.26 miliwn o arbedion yn ofynnol a dyrannwyd adnoddau staff yn fwy effeithiol.

Cafodd yr Aelodau gyflwyniad ac wedyn gwahoddodd y Cadeirydd gwestiynau a sylwadau gan yr Aelodau;

- Cyfeiriodd yr Aelodau at Brentisiaethau a cheisio eglurhad ai 6 mis yn unig oedd hyd y cynlluniau.
- Dywedodd y Swyddogion fod swyddi i hyfforddeion am 6 mis; roedd y rhain yn wahanol i Brentisiaethau.
- Gofynnodd yr Aelodau a oedd y swyddi i hyfforddeion yn ddefnyddiol neu at ddibenion cwrdd â thargedau, a dywedwyd wrthynt y byddai hyfforddeion yn ymgymryd â rolau go iawn ac yn cael hyfforddiant go iawn ar gyfer y rolau hynny, y bwriad oedd eu bod yn dod o hyd i waith ar ddiwedd y cynllun, a'u bod yn cynyddu eu cyflogadwyedd.

- Nododd yr aelodau y buddsoddiad £400 mil mewn darpariaeth TGCh a gofynnwyd a oedd asedau TGCh wedi'u dibrisio; dywedwyd wrth aelodau nad oeddent nid yw cyfrifyddu Llywodraeth Leol yn cynnwys dibrisio TGCh.

- Gofynnodd yr Aelodau a oedd mesurau'n ddigonol er mwyn gallu pennu ymrwymiadau a wnaed ar gyfer staff y rheng flaen a ceisiwyd sicrwydd bod adnoddai'n ddigon cadarn wrth fynd ymlaen.
- Dywedodd y swyddogion ei fod yn heriol fel cyfarwyddiaeth gallu lleihau a hefyd cael gafael yn yr holl elfennau AD, cefnogaeth a'r holl ochr dechnegol hefyd. Edrychid ar dechnoleg i weld sut y gall helpu i ddarparu arbedion yn y Gyfarwyddiaeth.
- Gofynnodd yr aelodau am effeithiolrwydd presennol defnyddio atebion TG er mwyn adrodd problemau a dywedwyd bod Caerdydd yn eithaf blaengar o ran sut mae'n darparu gwasanaethau gyd thechnoleg; o ran gwerth am arian, gallai Caerdydd gymharu'n dda yng Nghymru gan ei bod yn elwa ar arbedion maint.

- Gofynnodd yr aelodau am y Cyflog Byw a pham mae'n amcan corfforaethol ag yntau'n gynllun Cenedlaethol.
- Eglurodd rhai eraill fod Caerdydd yn annog y Cyflog Byw Gwirioneddol, nid y cyflog byw oedd yn statudol.
- Gofynnodd aelodau am oblygiadau cyllidebol y RhCC, dywedodd y swyddogion os na ellid datrys y broblem gyda'r RhCC, byddai'n cael effaith ar y cyfeiriad yn y dyfodol; nid oedd y wybodaeth am y gyllideb cyn y Pwyllgor wedi ffactoreiddio hyn i mewn.

- Cyfeiriodd yr Aelodau at Awtomatiaeth Prosesau Robotig a gofynnwyd a oedd unrhyw ystyriaeth wedi'i rhoi i ddefnyddio'r fath dechnoleg er mwyn gwneud arbedion.
- Dywedodd swyddogion y byddai staff digideiddio yn edrych arno, cofleidiwyd OCR ac mae'r ffurflenni treth gyngor gostyngiad i berson sengl wedi dileu elfen mewnbynnu â llaw.

**Cynigion cyllidebol Cyfarwyddiaeth Datblygu Economaidd**

Croesawodd y Cadeirydd y Cynghorydd Bale, Arweinydd Cyngor Caerdydd, Neil Hanratty, Cyfarwyddwr Datblygu Economaidd, Tara King, Cyfarwyddwr Cynorthwyol Masnachol a Chydweithio, Christine Salter, Cyfarwyddwr Corfforaethol Adnoddau, ac Ian Allwood, Pennaeth Cyllid ar gyfer yr eitem hon.

Atgoffodd y Cadeirydd yr Aelodau fod cylch gorchwyl Adolygu Polisi a Pherfformiad (PRAP) yn ymwneud â Rheoli Eiddo a Chyfleusterau yn unig o fewn y Gyfarwyddiaeth hon a gwahoddodd gwestiynau a gwahoddodd gwestiynau a sylwadau gan yr Aelodau;

- Cyfeiriodd yr Aelodau at y llinell 'Masnacheiddio – Codi Tâl a chreu incwm yn well ar gyfer Gwasanaethau Diogelwch' yn y gyllideb a'r rhagamcaniad o arbedion o £44 mil; gofynnodd yr aelodau sut yr adnabuwyd yr asesiad risg, a pha lliniaru y bydd ei angen o bosibl.
- Esboniodd y swyddogion eu bod yn arfarnu pa mor gyflawnadwy yw cynigion yn y maes hwnnw ar yr adeg honno; byddai'r model newydd yn herio ac yn codi sgiliau staff ac yn creu gwerthiant hyfyw i gyrff allanol. Roedd yr holl liniaru ar waith, ymgymerwyd â gwaith gyda'r rheolwr diogelwch i edrych ar y gadwyn gyflenwi felly mae'r risg gweddilliol yn symud i safle gwahanol.
- Nododd yr Aelodau fod y portffolio yn ymwneud â 4 aelod Cabinet a 3 Phwyllgor Craffu a cheisiwyd sylwadau ar gydlyniad y gyfarwyddiaeth ar gyfer ymagwedd strategol ac i sicrhau perchnogaeth wleidyddol y gyfarwyddiaeth yn gyffredinol. Dywedodd yr Aelod Cabinet fod slotiau rheolaidd yn y dyddiadur, mae'n cwrdd ag AD bob wythnos ac â swyddogion o'r gyfarwyddiaeth hon bob pythefnos; mae'n ymweld â rheolwyr gweithredol ac yn siarad â nhw ac yn mynychu cyfarfodydd cyllidebol misol. Ychwanegodd yr Arweinydd, ychydig o flynyddoedd yn ôl, bu sylwadau ynglŷn â seilos oedd yn bodoli; bellach mae Aelodau'r Cabinet yn gweithio ar draws y Cyngor, cafodd y strwythur rheoli ei ddiwygio a bydd craffu'n addasu i adlewyrchu hyn.

- Gofynnodd yr aelodau pam roedd yr arbedion yn y gyfarwyddiaeth mor fach; dywedodd y swyddogion fod yr arbediad o £900 mil yn cynnwys adrannau llai, roedd angen bod â galluedd i dyfu incwm, er enghraifft yn y gwasanaethau diogelwch, roedd yr her ar gyfer incwm lawer fwy.

- Roedd angen i’r arbedion fod yn realistig oherwydd bod heriau megis gwasanaethau adeiladau pan fu ôl-groniad mawr a gallai’r gyfarwyddiaeth wynebu colledion yn ystod y flwyddyn. Nododd y swyddogion, ar gyfer gwasanaethau Masnachol, cyfanswm y gwariant gros oedd £75 miliwn, a chafodd £62 miliwn o hynny ei gynhyrchu trwy incwm. Ystyriodd yr Arweinydd y byddai’n ddefnyddiol i Aelodau gael dadansoddiad mwy manwl yn y dyfodol.
- Wrth gyfeirio at Drosglwyddo Asedau Cymunedol (CAT), nododd yr Aelodau fod £100 mil gydag uchafswm o £25 mil fesul cais a gofynnwyd beth sy'n digwydd ar ôl i 4 cais gael eu gwneud. Dywedodd y Swyddogion, mewn gwirionedd roedd y ffigwr fesul CAT yn is na £25 mil, a gall fod mor isel â £5 mil, felly roedd lle am fwy na 4 cais. Ychwanegodd yr Aelod Cabinet mai diben y dyraniad £100 mil oedd cefnogi’r cynllun, cafodd arolygon eu cynnal ar adeiladau ac anghenion cymunedol. Mae’r arian yn caniatáu cymorth i bobl feddiannu’r adeiladau; bu 20 CAT yn y flwyddyn a aeth heibio, 4 yn y flwyddyn cyn hynny; mae’r arian yn fwy o gronfa galluogi ac ni ddefnyddiwyd y dyraniad o £100 mil yn llawn erioed, fodd bynnag pe bai angen rhagor, edrychid arni eto.

**Cynigion cyllidebol Cyfarwyddiaeth Llywodraethu a Gwasanaethau Cyfreithiol**

Croesawodd y Cadeirydd y Cynghorydd Dan De’Ath, yr Aelod Cabinet dros Sgiliau, Diogelwch, Ymgysylltu a Democratiaeth, Davina Fiore, Cyfarwyddwr Llywodraethu a Chyfreithiol, Christine Salter Cyfarwyddwr Corfforaethol Adnoddau, ac Ian Allwood, Pennaeth Cyllid ar gyfer yr eitem hon.

Tynnodd Cyfarwyddwr Llywodraethu a Chyfreithiol sylw’r Aelodau at y gwariant cyfreithiol allanol, a dywedwyd fod swyddogion yn y broses o edrych ar y gwariant o dan reolaeth Gwasanaethau Cyfreithiol, gyda’r bwriad o gynyddu arbedion effeithlonrwydd. Dywedwyd wrth yr aelodau, yn hytrach na thalu am Gyfreithwyr Gwasanaethau Plant a Gwasanaethau Cymdeithasol yn allanol, byddai ymgyrch recriwtio a deuid â’r gwaith yn fewnol, er mwyn symud o sefyllfa o orwariant i danwariant. Hefyd, tynnwyd sylw’r aelodau ast yr adnodd ychwanegol oedd ei angen i ymdrin â’r System Ymholiadau Aelodau, a fyddai’n symud i mewn i’r Tîm Gwasanaethau Pwyllgorau, er mwyn cynorthwyo Cynghorwyr gyda gwaith achos, amserau ymateb ayyb.

Gwahoddodd y Cadeirydd gwestiynau a sylwadau gan yr Aelodau;

- Gofynnodd yr Aelodau beth fu cyfanswm y gwariant ar wasanaethau cyfreithiol allanol; nid oedd gan swyddogion y ffigwr gyda nhw; bu’r cyfrifyddion yn gweithio gyda chyfarwyddiaethau eraill er mwyn pennu pa waith a fyddai’n dod i mewn i’r gwasanaeth, a ystyriwyd i fod yn £1.5 miliwn, gan gynnwys projectau mawr.
- Roedd yr arbedion o £55 mil yn seiliedig ar incwm o £1.5 miliwn. Eglurodd Swyddogion y byddant bob amser yn sicrhau eu bod yn cael y gwerth gorau, y defnyddir gwasanaethau cyfreithiol ar gyfer arbenigedd a gwaith ychwanegol; barn y Cyfarwyddwyr oedd, os oes adran gyfreithiol fewnol effeithiol ac effeithlon, gydag adnoddau priodol, byddai’n rhatach; cyflawnid arbedion o gomisiynu gwell a dod â gwaith yn fewnol. Byddai Gwasanaethau Cyfreithiol yn ymgymryd â’r risgiau allanol a gymerir ar hyn o bryd gan y Cyfarwyddiaethau. Dywedodd y Cyfarwyddwr ei bod yn hyderus y gellid rheoli hyn, gyda chafeat, sef os digwydd bod deddfwriaeth newydd neu

waith achos mawr, efallai bydd posibilrwydd bod angen mwy o adnoddau ariannol, fodd bynnag y gobaith oedd y byddai digon yn cael ei gadw wrth gefn er gwrthsefyll y cyfnodau brig a'r cyfnodau tawel.

- Roedd yr Aelodau'n bryderus y gallai tîm mwy gael ei danddefnyddio a gofynnwyd a ystyriwyd cydweithio gydag awdurdodau lleol eraill.
- Dywedwyd wrth yr aelodau bod y tîm dan ormod o bwysau ar hyn o bryd a chan hynny mae gwariant allanol ar wasanaethau cyfreithiol; cafodd trafodaethau eu cynnal yn y blynyddoedd diweddar ond ni symudwyd nhw ymlaen. Roedd y Cyfarwyddwr wedi rheoli gwasanaeth cyfreithio a rennir yn ei rôl flaenorol a nodwyd gallai fod costau sefydlu mawr o bosibl; gwnaed arbedion effeithlonrwydd ar gostau rheoli, ond nid ar lefelau is, er enghraifft gwaith achos.
- Gofynnodd yr Aelodau sut ddigwyddodd bod costau cyfreithwyr gofal plant yn sylweddol yn y lle cyntaf a dywedwyd wrthynt ei fod oherwydd y ffordd yr ymdrinnir af achosion gofal plant yn y llys; gwneir yr holl waith paratoi cyn i'r achos fynd i'r llys, yn ogystal mae terfyn amser tyn ar gyfer ymdrin ag achosion. Ar ôl y cyhoeddusrwydd ynghylch Baby P bu cynnydd o ran achosion a adroddwyd ac felly cynnydd o ran llwyth gwaith. Ystyriwyd y gallai hynny wedi bod yn gynnydd tymor byr, fodd bynnag, ni fu hynny'n wir.

- Ceisiodd yr Aelodau sicrwydd, gydag ail-ddylunio gwasanaethau cyfreithiol, câi'r busnes craidd ei gynnal o hyd.
- Dywedodd yr Swyddogion y câi'r busnes craidd ei gynnal ar draws pob maes yn y gyfarwyddiaeth, cyflawnid arbedion effeithlonrwydd trwy wneud newidiadau bach megis torri costau argraffu a pheidio â defnyddio papur ond ni fyddai cyfaddawd o ran ansawdd gofal plant cyfreithiol.
- Croesawodd yr aelodau nad oedd unrhyw newidiadau i'r Gwasanaeth Craffu. Dywedodd y Swyddogion y byddai adroddiad i'r Pwyllgor Cyfansoddiad nesaf sy'n cynnig newid yn y strwythur craffu; roedd £50 mil wedi mynd i mewn i'r strwythur craffu; roedd £50 mil wedi mynd i mewn i'r gyllideb Craffu eleni (2016/17) na fyddai yno yn y flwyddyn ariannol nesaf, felly ymgymerwyd ag adolygiad craffu.

PENDERFYNWYD – y bydd y Cadeirydd yn ysgrifennu at yr Aelod Cabinet ar ran y Pwyllgor i gyfleu eu sylwadau a'u harsylwadau.

60 : DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

Amserlennir cyfarfod nesaf y Pwyllgor Craffu Adolygu Polisi a Pherfformiad ar gyfer 14 Mawrth 2017, 4.30 pm, Ystafell Bwyllgor 4, Neuadd Y Sir, Caerdydd.

Daeth y cyfarfod i ben am Time Not Specified